# Hysbysiad Preifatrwydd - Cofrestru Etholiadol

Darperir yr hysbysiad hwn i egluro pa wybodaeth mae'r Cyngor ei hangen er mwyn casglu a chynnal y gofrestr etholiadol. Mae angen i'r Cyngor gasglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd unigolion drwy gydol y broses hon.

**Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaeth?**
Caiff yr holl wybodaeth bersonol ei dal a'i phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. I gael gwybodaeth ar rôl y Rheolydd Data, y Swyddog Diogelu Data a manylion cyswllt y Cyngor, gweler y dudalen 'Diogelu Data' ar wefan y Cyngor:
https://blaenau-gwent.gov.uk/en/Council/data-protection-foi/data-protection-act/

**Pa wybodaeth ydyn ni ei hangen?**
Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, ac os oes angen, eich teulu a phartïon eraill. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys:

- Manylion amdanoch: eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cenedligrwydd, rhif yswiriant gwladol, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost; os dros 17, rhai 16 i 17 oed; p'un ai ydych wedi dewis optio allan o fersiwn Agored y gofrestr etholiadol (y gofrestr a werthir i drydydd partïon)
- Gwybodaeth berthnasol arall sydd ei hangen i brosesu eich cais, megis disgrifiad o'r gwasanaeth sydd ei angen;

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i brosesu eich cais a/neu weinyddu'r camau gweithredu sydd eu hangen. Gallwn wirio peth o'r wybodaeth gyda ffynonellau eraill i sicrhau fod yr wybodaeth yr ydym wedi ei rhoi yn gywir.

**Pam ein bod angen eich gwybodaeth?**

Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau statudol. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sydd eu hangen gan y gyfraith a gall hefyd rannu'r wybodaeth gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddarganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus.

**Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?**
Dim ond cyhyd ag sydd angen y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth. Gellir cael manylion llawn am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich gwybodaeth drwy gysylltu â'r Adran berthnasol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau yr ydych eu hangen.
E-bost: electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk / 01495 355087

**Darparu gwybodaeth gywir**
Mae'n bwysig ein bod yn dal gwybodaeth gywir a chyfredol. Os oes unrhyw fanylion amdanoch wedi newid, neu y byddant yn newid yn y dyfodol, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn dweud wrthym cyn gynted ag sydd modd fel y gallwn ddiweddaru eich cofnodion.

**Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd**
Mae rhai penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifiadur gan fod y Cyngor yn defnyddio systemau awtomataidd i gefnogi ei wasanaethau. Os caiff eich data personol ei brosesu drwy ddulliau awtomataidd, cewch eich hysbysu am y canlyniadau a chrynodeb o'r meini prawf a ddefnyddir yn y broses. Bydd y canlyniadau yn amodol ar benderfyniad terfynol gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol.